**Polisi Preifatrwydd y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhan o Gyngor Caerdydd, sef Rheolydd y Data at ddibenion y data a gesglir. Bydd y polisi preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae ein sefydliad yn defnyddio data personol.

## Pa ddata rydym yn ei gasglu?

Gall y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes gael y categorïau canlynol o'ch data personol ar gyfer:

### Plant a Phobl ifanc *(ac Oedolion mewn rhai achosion)*

Categorïau cyffredinol:

- Gwybodaeth bersonol ar unwaith e.e. enw llawn, dyddiad geni, rhywedd, ac ati...
- Manylion cyswllt, e.e. cyfeiriad, ac ati...
- Data demograffig, e.e., Ethnigrwydd, Iaith Gyntaf, ac ati ...
- Cofnodion addysg
- Cofnodion meddygol lle bo hynny'n berthnasol i leoliad ysgol ac / neu Anghenion Addysgol Arbennig *(AAA)* / Anghenion Dysgu Ychwanegol *(ADY)*
- Cofnodion Gofal Cymdeithasol ac Iechyd lle bo'n berthnasol i leoliad ysgol a /neu AAA / ADY, ynghyd â diogelu a lles disgyblion

Is-gategorïau:

- Manylion Rhieni / Gofalwyr / Ymgeisydd *(gan gynnwys unrhyw berthnasau a / neu bersonau â chyfrifoldeb cyfreithiol dros blant a phobl ifanc)*
- Cyrhaeddiad yn yr Ysgol
- Presenoldeb yn yr Ysgol
- Gwaharddiadau Ysgol
- Gwybodaeth am Hanes yn yr Ysgol
- AAA / ADY
- Y cofnodion a ystyrir yn berthnasol i dderbyn plentyn i Ysgol a / neu leoliad addysgol
- Cofnodion sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i Arlwyo, Addysg Ddewisol yn y Cartref *(ADdC)*, Llywodraethwyr *(fel rhan o SLA Ar-lein)*, Gwasanaeth i Mewn i Waith, Gwasanaeth Cerdd, FyMhryder/MyConcern *(mewn perthynas ag unrhyw bryderon diogelu a lles a godir ynghylch disgyblion, e.e. bwlio, ac ati...)*, Cludiant Teithwyr, SLA Ar-lein *(ar gyfer staff ysgolion)*, a / neu'r Gwasanaeth Ieuenctid
- Nodweddion Agored i Niwed, e.e. Plant sy'n Derbyn Gofal *(PDG)*, Prydau Ysgol am Ddim *(PYADd)*, Ceiswyr lloches, Teithwyr, Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol *(C/SIA)*, Plant y Lluoedd Arfog, Gofalwyr Ifanc ac ati...

**Sut rydym yn casglu eich data?**

Rydych yn darparu'r rhan fwyaf o'r data rydyn ni'n ei gasglu yn uniongyrchol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes . Rydym yn cyrchu, yn casglu ac yn prosesu data o'r canlynol:

- 127 o Ysgolion a Gynhelir gan Gyngor Caerdydd ac Uned Cyfeirio Disgyblion
- Gwasanaeth Budd-daliadau *(mewn perthynas â PYADd)*
- Cofrestriadau Geni
- Blynyddoedd Cynnar *(gan gynnwys Dechrau'n Deg)*
- Y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Plant *(lle bo angen)*
- Clearsprings Ready Homes Ltd *(mewn perthynas â Cheiswyr Lloches)*
- Addysgu yn y Gymuned
- Cysylltu â Chaerdydd (C2C)
- Treth Gyngor
- Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA)
- Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)
- Gwasanaethau Llywodraethwyr
- Gwasanaeth Cynhwysiant *(gan gynnwys AAA / ADY)*
- Gwasanaeth i Mewn i Waith
- Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- Awdurdodau Lleol ac Ysgolion eraill a / neu leoliadau addysgol sy'n rhan o hanes addysgol eich plentyn
- Gwasanaethau Cludiant Teithwyr
- Derbyn i Ysgolion
- Ysgolion a lleoliadau addysgol yn Ninas Caerdydd
- Ysgolion a lleoliadau addysgol y tu allan i Gaerdydd ond sy'n berthnasol wrth ffurfio hanes addysgol eich plentyn *(e.e. Addysg Heblaw Yn Yr Ysgol ac AAA / ADY)*
- Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion
- Gwasanaethau i Ysgolion
- SLA Ar-lein
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Ffurflenni Data Statudol Addysg ac ysgolion Llywodraeth Cymru

**Sut byddwn yn defnyddio eich data?**

Mae’r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn defnyddio'r wybodaeth i gyflawni ei Gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer Addysg yn y Brifddinas, ynghyd â sicrhau cyfranogiad, diogelwch a lles ein disgyblion yn ogystal â dadansoddiadau cyllidebu, ariannu, grantiau, data ac ystadegol mewn perthynas â'r Gyfarwyddiaeth Addysg, ein Hysgolion a'n disgyblion.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn casglu eich data a'ch gwybodaeth at ddiben darparu'r gwasanaethau, y gefnogaeth, a'r hyfforddiant canlynol ynghyd â chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol megis Ffurflenni Data Statudol Llywodraeth Cymru:

- Addewid Caerdydd
- Dinas sy’n Dda i Blant
- Tiwtora yn y Gymuned
- Addysg Heblaw am yn yr Ysgol
- Lles Addysg
- Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr
- Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Gwasanaethau Ymgysylltu
- Gwasanaethau Llywodraethwyr
- Ysgolion Iach
- Cynhwysiant, sy'n cynnwys:
  - Cymorth Awtistiaeth
  - Anghenion Dysgu Cymhleth
  - Blynyddoedd Cynnar ac Anabledd
  - Seicoleg Addysg
  - Iechyd a Lles Emosiynol
  - Nam ar y Clyw
  - Monitro Cynllunio ac Adolygu
  - Anghenion Dysgu Ychwanegol / Anghenion Dysgu Ychwanegol
  - Lleferydd ac Iaith
  - Nam Gweld ac Amlsynhwyraidd
- Gwasanaeth i Mewn i Waith
- Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- Perfformio a Llywodraethu
- Gwasanaethau i Ysgolion, sy'n cynnwys:
  - Gwasanaethau Masnachol
  - E-ddysgu
  - Cysylltiadau Ysgol Rhyngwladol
  - Arlwyo a Phrydau Ysgolion
  - Gwasanaeth Cerdd
  - Storey Arms
- Lleoliadau Derbyn i Ysgolion
- *Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (yn ogystal ag Ysgolion yr 21ain Ganrif)* sy’n cynnwys:
  - Comisiynu
  - Cynllunio
  - Strategaeth
- Cludiant Ysgol
- Gwasanaeth Ieuenctid sy’n cynnwys:
  - Ymyrraeth Gynnar

- Rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. (NEET)

**Gyda phwy rydym yn rhannu eich data?**

Mae eich data yn cael ei rannu'n fewnol gyda gwahanol Wasanaethau o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghyd â'r Cyfarwyddiaethau canlynol *(Gweler Hysbysiadau Preifatrwydd penodol i'r gwasanaethau)*:

- Adnoddau Corfforaethol
- Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
- Pobl a Chymunedau

Ynghyd ag Ysgolion Cyngor Dinas Caerdydd sy'n berthnasol i hanes addysgol eich plentyn *(Gweler gwefannau yr Ysgolion Caerdydd* unigol *ar gyfer eu Hysbysiadau Preifatrwydd)*.

Dyma'r asiantaethau/ sefydliadau rydym yn rhannu eich data gyda nhw yn allanol:

- Alps *(Dadansoddiad ar-lein perfformiad myfyrwyr)*
- Gyrfa Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF)
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD/GACCCD)
- Estyn
- Ymddiriedolaeth Teulu Fischer *(FFT: Dadansoddi addysg, llythrennedd ac ymchwil)*
- Heddlu / Llysoedd *(o dan sail gyfreithlon – Gweler Rhannu data personol gydag awdurdodau gorfodi'r gyfraith | .Comisiynydd Gwybodaeth)*
- Awdurdodau Lleol perthnasol sy'n rhan o hanes addysgol eich plentyn (*Gweler yr amrywiol Awdurdodau Lleol / Cynghorau o fewn Cymru a Lloegr ar gyfer eu Hysbysiadau Preifatrwydd)*
- Ysgolion a sefydliadau addysgol perthnasol nad ydynt yn rhan o Gyngor Dinas Caerdydd ond sy'n ffurfio rhan o hanes addysgol eich plentyn *(Hysbysiad Preifatrwydd Gwasanaeth AHY)*
- Llywodraeth Cymru *(Casglu data a rheoli gwybodaeth ar gyfer Ysgolion)*
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

**Sut rydym yn storio eich data?**

Caiff pa mor hir y mae Cyngor Caerdydd yn cadw gwybodaeth ei bennu drwy ofynion statudol neu arfer gorau. At ddiben y Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes:

- Bydd cofnodion / ffeiliau disgyblion yn cael eu cadw'n ddiogel nes pen-blwydd eich plentyn yn 25
- Bydd Datganiad AAA a gynhelir o dan Ddeddf Addysg 1996 - Adran 324 yn cael ei gadw'n ddiogel nes pen-blwydd eich plentyn yn 30
- Bydd Datganiad AAA arfaethedig neu ddiwygiedig yn cael ei gadw'n ddiogel nes pen-blwydd eich plentyn yn 30
- Bydd dogfennau ADY, gan gynnwys adolygiadau a Chynlluniau Dysgu Unigol yn cael eu cadw'n ddiogel nes pen-blwydd eich plentyn yn 25
- Bydd cyngor a gwybodaeth i rieni ynghylch ADY yn cael eu cadw tan yr adeg gau a 12 mlynedd
- Bydd Ffeiliau ADY Plant yn cael eu cadw tan yr adeg gau a 35 mlynedd
- Bydd ceisiadau Derbyn i Ysgolion yn cael eu cadw nes yr adeg gau a 6 mlynedd

Ar ôl i'r cyfnod yma ddod i ben, bydd y wybodaeth yn cael ei gwaredu'n ddiogel.

**Beth yw eich hawliau diogelu data?**

Hoffai'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o'ch holl hawliau diogelu data. Mae gennych hawl i gael mynediad at eich data a chael copi o'r data personol sydd gan y Cyngor amdanoch a gofyn i'r Awdurdod gywiro eich data personol os oes camgymeriadau neu wybodaeth sy'n hen. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd gennych hefyd hawl i ofyn i'r Cyngor gyfyngu ar brosesu eich data personol tan fod unrhyw gamgymeriadau wedi eu cywiro, i wrthwynebu prosesu neu drosglwyddo neu (mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn) ofyn i ni ddileu eich data personol.

Os hoffech chi arfer unrhyw un neu rai o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon yn gysylltiedig â phrosesu eich data personol, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data fel y nodir isod.

Nid oes angen i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os gwnewch gais, bydd gennym un mis i ymateb i chi.

**Ein sail gyfreithlon**

Mae'r Cyngor yn cadw data personol amdanoch yn rhinwedd ei waith fel rheolwr data. Ein sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data personol yn gyffredinol fydd un neu ragor o'r canlynol:

- mae angen i ni brosesu eich data personol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel Awdurdod Lleol
- mae angen i ni brosesu eich data personol i gwblhau tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol sydd gennym fel corff cyhoeddus
- mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu person naturiol arall.
- rydych wedi rhoi caniatâd clir i brosesu eich data personol at ddiben penodol.

Gweler Deddf Addysg 1996 a 2002 ar gyfer manylion ynghylch rhesymau cyfreithlon y Cyngor dros ddefnyddio eich gwybodaeth.

**Newidiadau i'n polisi preifatrwydd**

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cadw ei bolisi preifatrwydd dan adolygiad rheolaidd ac yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022.

**Sut i gwyno**

Os oes gennych unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn i ni yn diogeludata@caerdydd.gov.uk

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113
Gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://www.ico.org.uk

**Cysylltu â Diogelu Data**

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y polisi preifatrwydd, data rydym yn ei gadw amdanoch chi, neu os hoffech arfer un o'ch hawliau diogelu data, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data i gael mwy o wybodaeth.

Swyddog Diogelu Data
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW
diogeludata@caerdydd.gov.uk

**Gwybodaeth Ychwanegol**

I weld rhagor o wybodaeth darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd Llawn y Cyngor.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**